

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

Trafodaethau Lles – Galwadau ffôn – yn ystod yr wythnos nesaf mi fydd athro / athrawes eich plentyn yn eich ffonio unwaith eto er mwyn parhau â'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref. Cofiwch ei bod hi'n bosib y bydd yr alwad yn ymddangos fel 'No Caller ID'. Prif bwrpas y sgwrs fydd adlewyrchu ar yr hanner tymor cyntaf o ddysgu yn y cartref ac unrhyw gymorth addysgol / cymdeithasol sydd ei angen arnoch.

Gweithio yn Teams – mae'r ymateb i weithgareddau ar teams ym Mlynnyddoedd 1 - 6 yn parhau yn bositif. Hoffwn eich atgoffa fod angen sicrhau eich bod yn mynd i **'Add work'** ac yna cofiwch wasgu'r botwm **'Turn in'** ar dop y dudalen ar y dde er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei drosglwyddo i'r athrawon. Cofiwch fod modd i chi weld sylwadau'r athrawon drwy fynd i'r adran **'Completed'** a chlicio ar y tasgau'n unigol. Meithrin a Derbyn daliwch ati i wneud eich gorau wrth ymateb i'r tasgau ar wefan yr ysgol.

Cofiwch nad oes angen poeni os nad ydych yn llwyddo i ymrwymo i'r holl weithgareddau, rydym yma i helpu a chefnogi, nid ydym am ychwanegu pryder i deuluoedd yn ystod y cyfnod yma.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Diolch i un o ddisgyblion yr ysgol, Dafydd T am ei waith celf hyfryd a'i neges amserol.

Cofion gore atoch,

**R C Williams, Pennaeth,
15/05/2020**



Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - I hope you are keeping healthy and safe and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

Welfare Discussions - Phone Calls - over the next week your child's teacher will call you once again to continue the communication between school and home. Remember that the call may appear as 'No Caller ID'. The main purpose of the talk will be to reflect on the first half term of home learning and any educational / social support you need.

Working in Teams - the response to activities on teams in Years 1 - 6 continues to be positive. I would like to remind you that you need to make sure you go to '**Add work**' and then remember to press the '**Turn in**' button at the top of the page to the right to ensure that the work is passed on to the teachers. Please remember that you can see the teacher's comments by going to the '**Completed**' section and clicking on the tasks individually. Nursery and Reception please continue to do your best in responding to the tasks on the school website.

Remember there is no need to worry if you do not commit to all the activities, we are here to help and support, we do not want to add concern to families during this time.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Thank you to Dafydd T, a pupil at the school, for his wonderful artwork and timely message.

Best wishes to you,

**R C Williams, Headteacher,
15/05/2020**

